

Y GÊM YMFUDO

Profwch fywyd fel gwennol ddu sy'n ymfudo o Affrica i Gymru. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymweld â lleoedd lle gallwch ddod o hyd i fwyd ar y ffordd fel bod gennych ddigon o egni ar gyfer y daith!

Trefnu'r gêm

1. Rhannwch y dosbarth i mewn i dimau. Gellir addasu maint y timau a'r nifer o leoedd rhwng Mozambique a Chymru yn ddibynnol ar faint y dosbarth, eu oedran a'r amser sydd ar gael ar gyfer y gweithgaredd.

2. Gosodwch gonau ar wahân mewn pellter addas i redeg, gan ddechrau gyda Mozambique, y lleoliadau rhwng y ddwy wlad a rhowch Gymru'n olaf.

3. Rhwng pob lleoliad, rhowch y conau 'bwyd pryfed' ar bellter addas i'w redeg i ffwrdd o'r conau sy'n dangos lleoliad.

Gosod y diagram

Gosodwch fel y gwelir isod ar gyfer pob tîm, gyda phellter addas i'w redeg rhwng pob côn



Chwarae'r gêm

1. Mae pob tîm yn dechrau ar gôn Mozambique

2. Un ar y tro, mae pob aelod o'r tîm yn gorfod rhedeg o gwmpas y côn bwyd pryfed, ymlaen i'r lleoliad nesaf, ac yna aros am weddill eu tîm

3. Pan fydd y tîm cyfan wedi rhedeg o gwmpas y côn bwyd pryfed ac ymlaen i gôn y lleoliad nesaf, gallant ddechrau rhedeg, un ar y tro, o gwmpas y côn bwyd pryfed nesaf ac ymlaen i'r lleoliad nesaf

4. Bydd y broses hon yn cael ei hailadrodd tan iddynt gyrraedd côn Cymru ar y diwedd. Y tîm cyntaf i gyrraedd Cymru sy'n fuddugol!

5. Fel ychwanegiad opsiynol (yn ddibynnol ar faint o sŵn rydych chi eisiau iddynt wneud!) gallwch ofyn i rai timoedd i wneud eu galwad gwennol ddu gorau wrth iddynt orffen!

Diagram chwarae

